

**COFNODION DRAFFT O GYFARFOD O'R GRŴP LLYWIO BUDDSODDI
RHANBARTHOL YNG NGHYMRU**

Dyddiad: dydd Mercher 4 Tachwedd 2020

Amser: 11:00 – 13:00

Atodiad A: Yn bresennol

1. Croeso (11:00 – 11:05)

- Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, gan ddiolch iddynt am eu presenoldeb.
- Nododd y Cadeirydd mai diben y cyfarfod oedd i'r Aelodau gael cyfle i glywed yn uniongyrchol gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd ynglŷn â hynt y gwaith, ac i gynnig eu sylwadau terfynol ar y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol cyn iddo gael ei gyhoeddi.
- Hefyd, croesawodd y Cadeirydd Paul Slevin, Llywydd Siambrau'r Canolbarth a De Cymru, i'w gyfarfod cyntaf.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol (11:05)

- Nododd y Cadeirydd y cofnodion drafft o gyfarfod 3 Medi, gan ofyn a oedd gan yr Aelodau unrhyw sylwadau. Ni roddwyd unrhyw sylwadau a derbyniwyd y cofnodion, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

3. Diweddariad Cyffredinol (11:05 – 11:30)

- Gofynnodd y Cadeirydd i Peter Ryland (PR) roi trosolwg o'r datblygiadau a fu ers y cyfarfod diwethaf ar 3 Medi.
- Diolchodd PR i'r Aelodau am eu cyfraniad at y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith hwn ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru, gan egluro ein bod yn dal heb wybod unrhyw fanylion am gynigion Llywodraeth y DU ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin, er gwaethaf ymdrechion Gweinidogion Llywodraeth Cymru a'i swyddogion i ymgysylltu â'r llywodraeth honno ynglŷn â'r mater hwn.
- Dywedodd PR fod Fframwaith Cymru yn darparu sail gadarn i Weinidogion Llywodraeth Cymru ei defnyddio yn eu trafodaethau gyda Llywodraeth y DU, a'r nod oedd ei gyhoeddi cyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, pan roedd yn debygol y byddai cyhoeddiad am y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Byddai unrhyw fesurau interim yn sgil yr Adolygiad o Wariant yn cael eu trafod gyda'r Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.
- Rhoddodd Rachel Garside-Jones (RGJ) adborth o gyfarfod y Gweithgor Gweinidogol ar fuddsoddi rhanbarthol a gynhaliwyd ar 24 Medi, a thrafodaeth y

Cabinet ar y Fframwaith drafft a gynhaliwyd ar 16 Hydref. Roedd y cyfarfodydd wedi bod yn gadarnhaol o ran datblygu ffocws y Fframwaith ar ranbarthiaeth a'r cydbwysedd rhwng ymyriadau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol. Cytunodd y Cabinet y byddai'r Gweithgor Gweinidogol yn parhau â'i rôl yn 2021, a hefyd cymeradwyodd waith y Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru.

- Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:
 - Yr angen i symud yn ofalus wrth bontio o'r sefyllfa bresennol i system weithredol, a bod strwythurau'r Grŵp Llywio Buddsoddi Rhanbarthol (a'i is-grwpiau) yn ffordd ddelfrydol o wneud hynny – pe bai'r Gweinidogion yn gefnogol.
 - Yr angen i'r Fframwaith fod â swyddogaeth fwy amlddimensiwn, er mwyn ystyried yr amgylchedd cyllido ehangach y tu hwnt i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
 - Roedd croeso cyffredinol i'r Fframwaith a'i egwyddorion, ond roedd llywodraeth leol wedi sôn bod rhywfaint o bryder ynglŷn â photensial y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig i wrthdaro â strwythurau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes, a'r teimlad oedd bod angen cynnal trafodaeth bellach ar y mater hwn yn y Gogledd.
 - Croesawyd y ffaith bod y Fframwaith yn canolbwyntio ar Ymchwil, Datblygu ac Arloesi.
 - Y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith yn y tymor canolig, a rôl y gwahanol randdeiliaid o ran dylanwadu ar ei esblygiad.

4. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd, Jeremy Miles AS (11:30 – 12:00)

- Diolchodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i'r holl Aelodau am eu cyfraniad, eu harbenigedd, a'u cymorth gyda'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith, gan nodi y byddai cyhoeddi'r Fframwaith yn garreg filltir bwysig yn y gwaith buddsoddi rhanbarthol a oedd wedi cael ei gyflawni gan y Grŵp dros gyfnod o ddwy flynedd.
- Gwnaed y pwyntiau canlynol mewn ymateb i nifer o sylwadau a chwestiynau a gafwyd gan Aelodau:
 - Pwysleisiodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd y byddai'r model a oedd yn cael ei arwain gan y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol yn sensitif i'r materion a godwyd, a byddai'r gwaith o'i fireinio'n parhau.
 - Roedd y Gweinidog yn fodlon ystyried y fantais a allai barhau i ddeillio o gyfraniad y Grŵp Llywio, ond dywedodd mai mater i Lywodraeth Cymru nesaf fyddai penderfynu ar strwythurau llywodraethu parhaol ar ôl gwanwyn 2021.

- Dywedodd y Gweinidog bod y Cabinet yn gytûn mai WEFO fyddai'n rheoli'r polisi buddsoddi rhanbarthol newydd yn ystod y cyfnod pontio.
 - Wrth ymateb i gwestiwn gan un o'r Aelodau ynglŷn â chynlluniau wrth gefn pe na bai Llywodraeth y DU yn parchu datganoli, nododd y Gweinidog, er y byddem yn derbyn cwmpas lefel uchaf y DU, y byddai angen i drefniadau gael eu cynllunio ar y cyd ac na ddylent ymyrryd â datganoli. Nid oes gan Lywodraeth y DU y dylanwad na'r gallu ar lawr gwlad i gyflawni mewn modd sy'n briodol ar gyfer Cymru.
 - Nododd y Gweinidog y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ehangu cwmpas y Fframwaith er mwyn ei ddefnyddio y tu hwnt i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.
 - Dywedodd y Gweinidog y byddai'r Gweithgor Gweinidogol ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yn parhau yn y tymor byr, ac y byddai'n awyddus i fanteisio ar arbenigedd Aelodau'r Grŵp hwn. Ychwanegodd y Cadeirydd, bod awydd i weld y Grŵp yn cyflawni rôl barhaus, gan nodi ei allu i gyrraedd sectorau amrywiol.
 - Nododd y Gweinidog lefel y gefnogaeth i ddatganoli, gan ddweud y byddai'n trafod Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a strwythurau rhanbarthol gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.
 - Dywedodd un Aelod fod y dull gweithredu ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn wedi bod yn gadarnhaol ac yn gynhwysol, gan ofyn a fyddai adnoddau'n cael eu hailddyrannu ar gyfer cefnogi mwy o rôl ar lefel ranbarthol. Dywedodd y byddai'r pontio i fodel newydd yn digwydd mewn modd sensitif, ac y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r cymorth y gellid ei ddarparu.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd am ei amser, a'i ymgysylltu parhaus â'r Grŵp.

5. Trafodaeth ar y Fframwaith drafft ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol (12:00 – 12:55)
--

- Cyflwynodd RGJ y Fframwaith drafft gan groesawu unrhyw sylwadau ac awgrymiadau pellach ynglŷn â'r testun er mwyn sicrhau y bydd y fframwaith ar ei orau o ran cyfleoedd buddsoddi rhanbarthol.
- Cododd yr Aelodau y pwyntiau canlynol:
 - Byddai rhywfaint o destun yn cael ei gynnig i adlewyrchu sylwadau a oedd wedi cael eu mynegi'n flaenorol ynghylch ehangu cwmpas y Fframwaith y tu hwnt i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

- Roedd angen rhagor o ymgysylltu gwleidyddol i ganfod consensws ar rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol arfaethedig, gan gynnwys dulliau gweithredu i alluogi gweithio ar draws ffiniau gydag awdurdodau cyfagos.
- Roedd yn bwysig sicrhau bod busnesau'n glir o ran y gwahaniaethau rhwng strwythurau cenedlaethol, rhanbarthol, a lleol, a rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Awgrymwyd y dylai'r Fframwaith roi mwy o bwyslais ar ddatgarboneiddio busnesau.
- Nodwyd y gefnogaeth i bwyntiau a wnaed yn gynharach ynglŷn ag integreiddio cyfleoedd ariannu synergyddol er mwyn cael hyd i'r cydbwysedd iawn rhwng y cyllid yn lle cyllid yr UE a'r amgylchedd ariannu ehangach.
- Pwysigrwydd hyblygrwydd wrth symud ymlaen er mwyn i'r Fframwaith allu ymateb i faterion newydd sy'n codi.
- Yr angen i gryfhau capasiti rhanbarthol er mwyn sicrhau bod annibyniaeth ranbarthol yn ystyrlon. Dylai cryfhau trefniadau rhanbarthol ei gwneud yn haws gweithio ar draws ffiniau, a byddai prosiectau trawsffiniol yn gallu fod yn rhan allweddol o gyllid synergyddol.
- Yr angen i'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol ymgysylltu â'r trydydd sector.
- Cefnogi datganoli, ond ni ddylai datganoli olygu trosglwyddo pwerau awdurdodau lleol i gyrff rhanbarthol.
- Diolchodd RGJ i'r Grŵp am ei gyfraniad, gan ddweud y byddai'r diwygiadau i'r Fframwaith, a oedd wedi cael eu hawgrymu, yn cael eu hystyried ar ôl y cyfarfod. Dywedodd RJG y byddai swyddogion yn parhau i ymgysylltu â'r Grŵp ynglŷn â chyhoeddi'r Fframwaith ganol mis Tachwedd.

6. Unrhyw fater arall a sylwadau i gloi (12:55 – 13:00)
--

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr ar ôl Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, gan fod disgwyl y byddai cyhoeddiad ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn digwydd bryd hynny.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw sylwadau pellach cyn diolch i'r Aelodau am eu cyfraniad a chau'r cyfarfod.

ATODIAD A

RHESTR O FYNYCHWYR

Cadeirydd

Huw Irranca-Davies AS

Aelodau

Sefydliad	Enw
Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru	Nick Speed, Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus, BT
Prifysgolion Cymru	Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr
Partneriaeth De-ddwyrain Cymru	Kellie Beirne, Cyfarwyddwr, Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	Chris Llewellyn, Prif Weithredwr
Prifysgol Caerdydd	Claire Hobbs
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Cyng David Simpson, Arweinydd, Cyngor Sir Penfro
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Cyng David Jenkins, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, Cyngor Sir Caerfyrddin
Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru	Cyng Rosemarie Harris, Arweinydd, Cyngor Powys
CLILC	Dan Hurford, Pennaeth Polisi
	Ceri Davies
Canolfan Cydweithredol Cymru	Derek Walker, Prif Weithredwr
Rhwydwaith Gwledig Cymru	Eirlys Lloyd, Rheolwr Partneriaethau Cymunedol/Canolfan Bwyd Cymru, Cyngor Sir Ceredigion
Grahame Guilford (Annibynnol)	Grahame Guilford, Perchennog, Grahame Guilford and Company Ltd
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	Ashley Rogers, Cyfarwyddwr, Gill and Shaw
Yr Athro Kevin Morgan (Annibynnol)	Yr Athro Kevin Morgan, Llywodraethu a Datblygu, Prifysgol Caerdydd
CLILC	Lowri Gwilym, Rheolwr – Ewrop ac Adfywio, Adfywio a'r Amgylchedd
Siambrau Masnach De a Chanolbarth Cymru	Paul Slevin, Llywydd
Partneriaeth De-orllewin Cymru	Cyng Rob Stewart, Arweinydd, Cyngor Abertawe
Partneriaeth Gogledd Cymru	Cyng Dyfrig Siencyn, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
CLILC	Tim Peppin, Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy

Mynychwyr Llywodraeth Cymru

Enw	Rôl ac adran
Peter Ryland	Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO)
Rachel Garside-Jones	Dirprwy Gyfarwyddwr – Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO
Rhodri Griffiths	Prif Swyddog Rhanbarthol, Canolbarth a De-orllewin Cymru – yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
David Rosser	Prif Swyddog Rhanbarthol, De-ddwyrain Cymru – yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Gwenllian Roberts	Prif Swyddog Rhanbarthol, Gogledd Cymru – yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Gail Merriman	Rheolwr Cynlluniau Cymunedol a Chydweithredol yr RDP – yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Alison Sandford	Pennaeth Gweithio mewn Partneriaeth, WEFO
Mike Richards	Rheolwr Cyfathrebu, WEFO
Sheilah Seymour	Pennaeth Ymchwil a Dadansoddi, WEFO
Tracy Welland	Pennaeth Gweithredu Strategol, WEFO
Geraint Green	Pennaeth Rheoli Rhaglenni (ESF ac ETC), WEFO
Ceri Edwards	Uwch-reolwr Polisi, WEFO
Tom Brown	Uwch-reolwr Polisi, WEFO
Ashley Davis	Swyddog Polisi, WEFO
Michelle Holland	Swyddog Cymorth Buddsoddi Rhanbarthol, WEFO